Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Teitl:	**Swyddog Cymorth Systemau Busnes**
Lleoliad:	**Gweithio Gartref**
Cyfarwyddiaeth:	**Gwasanaethau Corfforaethol a Strategaeth**
Cyfeirnod:	**BG07483**
Oriau:	**37 yr wythnos**
Cyflog:	**Gradd 5 - £25,409 - £28,371 y flwyddyn**
Contract:	**Dros Dro hyd at fis Mawrth 2025**

Crynodeb Swydd

Cefnogi datblygiad a chynnal systemau busnes ar draws y Cyngor, yn neilltuol y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda phrif ffocws ar system rheoli achos electronig WCCIS. Bydd deiliad y swydd hefyd yn cynorthwyo gyda chynhyrchu gwybodaeth ac adroddiadau rheoli.

Y swyddog fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer desg gymorth Gwasanaethau Cymdeithasol a bydd angen iddo/iddi fonitro ac ymateb yn gyflym ac effeithlon i geisiadau a geir drwy'r llinell gymorth dros y ffôn a drwy e-bost.

Hysbyseb Lawn

Bydd y swyddog yn gyfrifol am gefnogi gwahanol systemau busnes ar draws y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda'r brif rôl o ddarparu gwasanaeth desg gymorth ar gyfer system rheoli electronig 'WCCIS'.

Mae hon yn swydd ddiddorol fydd yn rhoi cyfle i gymryd rhan mewn gwaith prosiect. Bydd y swyddog yn cefnogi'r datblygiad parhaus o'r system WCCIS, sy'n parhau i fod yn faes pwysig o waith.

Yn ogystal â gwaith seiliedig ar systemau bydd y swyddog hefyd yn cefnogi'r agenda gwella ehangach drwy gynorthwyo gyda chynhyrchu gwybodaeth rheoli.

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn fedrus gyda chyfrifiaduron yn cynnwys y gallu i ddefnyddio MS Office i safon uchel. Gan fod y swydd yn rhoi swyddogaeth desg gymorth mae

sgiliau cyfathrebu a chwsmeriaid yn hanfodol, ynghyd â sgiliau dadansoddi a datrys problemau sydd wedi datblygu yn dda.

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth yn ystod y broses recriwtio.

Dyddiad Cau: 24 Mawrth 2023

Dyddiad Cyfweliadau: 11 Ebrill 2023